Pobl Oedrannus sy'n Syrthio yn eu Cartrefi

Pecyn Cymorth er mwyn rhoi sylw i fater pobl oedrannus sy'n syrthio yn eu cartrefi

Cynnwys:

Pennod 1	Datganiad o ddiben – nodau ac amcanion y Fenter
Pennod 2	Materion i'w hystyried cyn sefydlu Menter
Pennod 3	Gweithredu Cynllun Diogelwch yn y Cartref
Atodiad 1	Cyflwyniad PowerPoint i'w ddefnyddio mewn Diwrnod Marchnata
Atodiad 2	Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer atgyfeirio i'r cynllun
Atodiad 3a	Ffurflen Atgyfeirio – Asiantaeth Gofal a Thrwsio
Atodiad 3b	Ffurflen Atgyfeirio - Ysbytai
Atodiad 4	Ffurflen Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer
Atodiad 5	Astudiaethau Achos ar ôl ymyriad o'r prosiect peilot

Pennod 1

Cyflwyniad – nodau ac amcanion y Fenter

Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd themâu allweddol Her Iechyd Cymru gan eu bod yn cael eu hystyried fel y materion sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o'r anhwylderau y gellid eu hosgoi. Un o'r themâu allweddol yw Damweiniau ac Anafiadau.

2. Bob blwyddyn yn y DU mae dros 2.7 miliwn o ddamweiniau yn y cartref yn arwain at ymweliad ag ysbyty, ac mae dros filiwn o'r ymweliadau hyn yn digwydd o ganlyniad i godymau. Mae chwarter y damweiniau hyn sy'n digwydd o ganlyniad i godwm yn ddigon drwg i gael eu galw'n ddifrifol, a phobl dros 65 oed sy'n gyfrifol am bron i hanner yr achosion difrifol[1]. Yn ogystal â thrawma codwm, mae'r claf yn aml yn dioddef effeithiau seicogymdeithasol dwys fel colli hyder, cael ei ynysu fwy a cholli rhywfaint o annibyniaeth. Mae Help the Aged yn amcangyfrif bod hanner yr holl gleifion sy'n torri eu cluniau yn methu â byw'n annibynnol wedyn, ac mae hyn yn ffactor allweddol sy'n arwain at dderbyn i ofal preswyl yn gynnar. Yn ychwanegol at y 1,500 o bobl dros 65 sy'n marw'n uniongyrchol o ganlyniad i syrthio'n ddamweiniol yn eu cartrefi bob blwyddyn[2], mae'r prognosis tymor hir ar gyfer llawer o'r rhai hynny sy'n torri clun yn wael hefyd, gydag un o bob pum claf yn debygol o farw cyn pen chwe mis ar ôl ei ddamwain[3] a 33% cyn pen blwyddyn ar ôl y ddamwain[4].

3. Mae codymau'n cael effaith drist iawn ar fywydau'r unigolion dan sylw, ac mae'r gost i'r GIG yn aruthrol. Mae torri cluniau yn unig yn costio £1.8 biliwn y flwyddyn i'r GIG[4], ac yn gyfrifol am 20% o'r holl welyau Orthopedig mewn ysbytai.[2] Mae cost triniaeth o ganlyniad i hyn oddeutu £12,000 y claf (Yr Adran Iechyd, 1994)[5].

4. Mae Her Iechyd Cymru'n gobeithio lleihau nifer y damweiniau a'r anafiadau ac mae'r prosiect hwn yn unol â hynny yn ceisio lleihau nifer yr henoed sy'n cwympo yn eu cartrefi. Ar hyn o bryd, os yw person oedrannus yn syrthio yn ei gartref, yn cael triniaeth wedyn yn yr adran ddamweiniau ac yn dychwelyd adref heb orfod aros yn yr ysbyty, neu'n cael ei drin ym meddygfa'r meddyg teulu o ganlyniad i godwm, ni wneir asesiad o ddiogelwch y person ei hun na'i gartref. Mae'n bosib felly y bydd yn dychwelyd i'r un sefyllfa beryglus ag a achosodd y godwm wreiddiol. Ar ben hyn, gan nad yw'n gallu symud o gwmpas gystal o ganlyniad i'r godwm gyntaf, pe bai'n digwydd cael ail godwm gallai'r canlyniad fod yn waeth a gallai arwain at dorri asgwrn, gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty neu o bosib dreulio gweddill ei ddyddiau mewn cartref nyrsio neu gartref preswyl. Mewn rhai achosion, pan fo'r prif fater yn gysylltiedig â diogelwch yn y cartref, mae'r claf yn cael ei gyfeirio at Therapydd Galwedigaethol.

5. Cynlluniwyd y fenter hon felly er mwyn rhoi sylw i fater pobl oedrannus sy'n syrthio yn eu cartrefi. Mae'n rhoi sylw i nifer o ffactorau a allai achosi iddynt syrthio, gan helpu i nodi'r peryglon a chywiro sefyllfaoedd. Mae'n gyson â nodau Her Iechyd Cymru gan ei bod yn rhoi sylw i thema allweddol Damweiniau ac Anafiadau, ond mae hefyd yn cyfrannu tuag at y nod o wella

iechyd a lles meddyliol, drwy geisio sicrhau bod yr henoed yn dal i allu symud o gwmpas a byw bywyd mor annibynnol ag sy'n bosib yn eu cartrefi eu hunain am gymaint o amser ag sy'n bosib.

[1] Yr Adran Diwydiant a Masnach (1998). Accidental falls in the home regional distribution of cases involving people aged over 65 in the UK, DTI Publications
[2] Yr Adran Diwydiant a Masnach (1999) Guidance for Professionals who work with older people. DTI Publications
[3] Yr Adran Diwydiant a Masnach (1999) Preventing accidental falls in and around the home – information for friends, neighbours, relatives and carers of older people. DTI Publications.
[4] Help the Aged (2003) Reducing falls risk among older people, Help the Aged
[5] Yr Asiantaeth Datblygu Iechyd (2001). International review of interventions in falls among older people. DTI Publications

Pennod 2

Diogelwch yn y Cartref – codymau a'r henoed

1. Ystyriaethau cychwynnol

Mae angen rhoi sylw i ystyriaethau penodol cyn cychwyn ar y prosiect hwn, gan gynnwys;

a. Beth yw'r grŵp targed?
b. A fydd yr ymyriad yn sicrhau'r canlyniad bwriedig, h.y. lleihau nifer y codymau yn y cartref ymhlith y grŵp targed?
c. Sut y gellir cyrraedd y grŵp targed?
d. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?
e. Sut fydd y fenter yn cael ei gwerthuso?
f. A fydd y fenter yn cynnig gwerth am arian?

2. Grŵp Targed

Er bod y fenter yn ceisio lleihau nifer yr henoed sy'n syrthio yn eu cartrefi, mae angen diffinio'r grŵp oedran sydd i'w dargedu. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol [NICE] yn eu canllawiau ar godymau,[6] ac ymgyrch 'Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn' y Cynulliad Cenedlaethol, yn nodi person hŷn fel rhywun sydd dros 65 oed. Awgrymir felly y dylid mabwysiadu'r oedran hwn ar gyfer y fenter hon.

Cyfeirir y fenter felly at bobl dros 65 oed, sy'n berchen-feddianwyr neu'n denantiaid preifat, yn byw ar eu pennau eu hunain neu gyda phobl eraill o fewn y grŵp targed.

3. Sicrhau'r canlyniad bwriedig

Mae'r rhesymau pam bod pobl yn syrthio yn gymhleth. Nododd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (2000) y ffactorau allanol a mewnol isod fel rhai sy'n gallu achosi i rywun syrthio.

Ffactorau Allanol	Ffactorau Mewnol
Golau gwael, yn enwedig ar risiau.	Problemau gyda chydbwysedd, cerdded neu symud o gwmpas.
Grisiau Serth.	Cymryd pedwar neu ragor o wahanol feddyginiaethau.
Carpedi neu fatiau heb fod yn sownd.	Nam ar y golwg.
Lloriau llithrig.	Amhariad ar allu gwybyddol neu iselder.
Esgidiau neu ddillad nad ydynt yn ffitio'n iawn.	Hypotensiwn ystumiol.
Dim cyfarpar diogelwch e.e. canllaw i afael ynddo.	Golau neu ffenestri na ellir mynd atynt.

Mae angen rhoi sylw i gynifer ag sy'n bosib o'r ffactorau er mwyn sicrhau bod nod bwriedig yr ymyriad yn cael ei gyflawni.

4. Cyrraedd y Grŵp Targed

Gellir cyrraedd y grŵp targed drwy ymarferiad marchnata, gan gynnwys lansio drwy gyfrwng y wasg a dosbarthu taflenni i grwpiau gwirfoddol lleol (e.e. clybiau cinio), canolfannau gofal dydd ac unigolion sydd â diddordeb. Mae cyflwyniadau yn amlinellu'r cynllun i grwpiau lleol a chyrff statudol hefyd yn werth eu hystyried. Gellir gwahodd yr unigolion a'r grwpiau hynny sy'n mynegi diddordeb yn y cynllun i fynychu digwyddiad lle gellir rhoi cyflwyniad ar y cynllun gan amlinellu beth mae'n ceisio ei wneud, a beth y gellid ei wneud ar ran yr unigolion a fyddai'n cymryd rhan ynddo.

Gellir cyrraedd y grŵp targed hefyd drwy gynllun atgyfeirio, gydag atgyfeiriadau'n cael eu gwneud gan Ofalwyr Cartref yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a chan Nyrsys Cymunedol, o grwpiau gwirfoddol lleol (e.e. Help the Aged/Age Concern), gan Therapyddion Galwedigaethol a chan Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys yr Ysbyty lleol. Rhaid rhoi cyfarwyddyd ar gyfer atgyfeiriadau er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai hynny a allai elwa o'r cynllun fyddai'n cael eu cyfeirio at y cynllun, ac er mwyn sicrhau nad yw'r cynllun yn cael mwy o atgyfeiriadau nag y gall ddygymod â hwy.

5. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?

Gall partneriaid y cynllun gynnwys yr awdurdod lleol, drwy ei adran iechyd yr amgylchedd a'i adran gwasanaethau cymdeithasol, Gofalwyr Cartref, yr Asiantaeth Gofal a Thrwsio, yr Ymddiriedolaeth GIG leol ar gyfer yr ardal, y bwrdd iechyd lleol a chyrff o'r sector gwirfoddol sydd â diddordeb.

6. Sut fydd y fenter yn cael ei gwerthuso?

Er mwyn gwerthuso llwyddiant y prosiect mae angen casglu data sy'n dangos nifer y codymau ymhlith y grŵp targed yn ystod cyfnod penodol cyn yr ymyriad, ac yn ystod yr un cyfnod ar ôl yr ymyriad. Bydd y data'n ddata ansoddol gan mwyaf, gan na all mân achosion o lithro a baglu yn y cartref, lle nad oes angen mynd i weld y meddyg neu dderbyn i'r ysbyty, fod yn ddim ond mesur ansoddol, ac yn yr un modd mae materion fel teimlo eich bod yn ddiogelach yn eich cartref yn oddrychol ac ni allant fod yn ddim mwy nag asesiad ansoddol.

Gellir gofyn i aelodau o'r grŵp targed sy'n cymryd rhan yn y prosiect lenwi holiaduron gyfnod penodol ar ôl yr ymyriad er mwyn canfod a yw nifer y codymau wedi gostwng ac a yw'r teimlad o fod yn ddiogel wedi cynyddu.

Nid yw'r dulliau a ddefnyddir i gofnodi derbyn cleifion i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn ddigon cyson drwy Gymru i allu cymharu ffigurau o bob cwr o'r wlad. Fodd bynnag, gellir ystyried defnyddio data o'r fath a gesglir gan ysbytai lleol, lle mae'n bosib y bydd mwy o gysondeb yn y dulliau cofnodi. Gellir casglu ffigurau o'r fath at ei gilydd a'u cymharu cyn yr ymyriad ac am yr un cyfnod ar ôl yr ymyriad i ddibenion gwerthuso, ond bydd angen cymharu cyfnodau tebyg – e.e. yr haf gyda'r haf, a'r gaeaf gyda'r gaeaf, er mwyn sicrhau nad yw dylanwadau tymhorol yn effeithio ar y ffigurau.

Yn yr un modd, gellir gofyn i'r Gwasanaeth Ambiwlans ddarparu data ynglŷn â faint o bobl o'r grŵp targed sy'n defnyddio'r gwasanaeth 999 i ofyn am ambiwlans i'w cludo i ysbyty o ganlyniad i godwm yn ystod cyfnod penodedig, a chasglu a chymharu'r un data wedyn ar gyfer yr un cyfnod ar ôl yr ymyriad. Unwaith eto, mae'n bosib y bydd

ffactorau allanol yn llurgunio rhywfaint ar y ffigurau hyn e.e. a oes aelodau o'r teulu ar gael i fynd â'r claf i'r ysbyty, ac yn y blaen. Er hyn, dylech allu cael asesiad ansoddol.

Awgrymir y gellid gwneud adolygiadau allanol o'r cynllun, lle byddai achosion unigol yn cael eu dadansoddi'n fanwl gan unigolyn neu gorff allanol, annibynnol er mwyn asesu a yw'r cynllun yn cyflawni ei amcanion ac a yw'n cynnig gwerth am arian.

7. A fydd y fenter yn cynnig gwerth am arian?

Mae cost gwella un person sydd wedi torri ei glun, gan gynnwys ei gadw mewn ysbyty a chynnig gofal ar ôl llawdriniaeth dros £30,000 mewn achosion lle nad oes unrhyw gymhlethdodau'n codi. Fel y nodwyd ym Mhennod 1.2, mae anafiadau o'r fath yn gallu cael effaith sylweddol ac yn gallu cyfyngu ar fywydau pobl.

Mae costau'r prosiect peilot hwn yn gysylltiedig â'r marchnata cychwynnol a chyfarfodydd er mwyn codi ymwybyddiaeth ohono. Mae costau hefyd yn gysylltiedig ag archwilio eiddo'r unigolion sy'n cael eu cyfeirio i'r cynllun, ac â'r deunyddiau a'r llafur sydd eu hangen er mwyn gwneud y gwaith angenrheidiol i wella'r sefyllfaoedd.

Mae'r awdurdod lleol a gynhaliodd y prosiect peilot wedi gwario £70,000 mewn cyfnod o flwyddyn o ariannu'r prosiect yn llawn. Efallai y gellid cael rhywfaint o arian gan y Bwrdd Iechyd Lleol, Adran Dai'r awdurdod lleol ac eraill, ond mater i'w benderfynu'n lleol fydd hwn.

Byddai'r gwariant a wnaethpwyd fel rhan o'r prosiect peilot mewn blwyddyn yn talu am driniaeth i 2.33 achos o dorri clun heb unrhyw gymhlethdodau, ac nid yw'n ystyried y costau hynny na ellir eu mesur o ran y manteision i iechyd meddwl pobl oedrannus wrth iddynt ddod i deimlo'n ddiogelach yn eu cartrefi eu hunain. Awgrymir felly bod y prosiect hwn yn cynnig gwerth am arian.

[6] Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Glinigol (2004) Falls: the assessment and prevention of falls in older people.

Pennod 3

Diogelwch yn y Cartref – Yr henoed a chodymau yn y cartref – Gweithredu Menter

Yr Ymgyrch

Asesir cartrefi'r henoed am risgiau a allai achosi codwm, a rhoddir sylw i'r risgiau a nodwyd, gan wneud amgylchedd y cartref yn un diogelach.

Marchnata'r fenter

1. Mae angen cael llawer iawn o bobl i gymryd rhan yn yr ymgyrch hon er mwyn iddi fod yn gost effeithiol. O ganlyniad, mae angen sicrhau bod cynifer o'r henoed cymwys a allai elwa o'r cynllun yn ymwybodol ohono, ac yn nodi bod ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan ohoni. I'r perwyl hwn, awgrymir y dylid cael dau ddull o gael pobl i gymryd rhan, dull hunan-enwebiad a dull atgyfeiriad.

2. Anogir pobl i enwebu eu hunain drwy raglen farchnata. Anfonir taflenni at gynulleidfa eang, gan gynnwys llyfrgelloedd lleol, grwpiau gwirfoddol lleol (e.e. Age Concern, Help the Aged, Sefydliad y Merched, ac ati) a chlybiau cinio. Gwneir cyflwyniadau i grwpiau lleol amrywiol, a threfnir arddangosfeydd/cyflwyniadau mewn digwyddiadau lleol. Gellid targedu'r cynllun hefyd tuag at yr ardaloedd hynny lle mae'r gyfran uchaf o bobl hŷn yn byw, neu ardaloedd lle nodwyd bod llawer o ddamweiniau wedi digwydd. Mae'r daflen yn gwahodd pobl sy'n gymwys i fynychu cyflwyniad mewn lleoliad canolog, hwylus, lle mae pwrpas a manteision y cynllun yn cael eu hamlinellu mewn cyflwyniad. Mae'r cyflwyniad a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot i'w weld ynghlwm fel Atodiad 1. Gellid defnyddio'r digwyddiadau lleol hefyd er mwyn hyrwyddo negeseuon iechyd a lles eraill ar gyfer y grŵp targed, e.e. y ffaith fod brechiadau rhag y ffliw ar gael yn y gaeaf, negeseuon ynglŷn â gwresogi yn y gaeaf, negeseuon am fudd-daliadau, ac ati, ond rhaid gochel rhag cynhyrchu gormod o wybodaeth a cholli neges ganolog y Cynllun Diogelwch yn y Cartref.

3. Rhaid rheoli'r cynllun atgyfeirio'n ofalus er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei orlwytho. Yn y cynllun peilot rhoddwyd y pŵer i atgyfeirio i Ofalwyr Cartref y Gwasanaethau Cymdeithasol a Nyrsys Cymunedol, sef y rhai sydd â chysylltiad agos o ddydd i ddydd â'r henoed yn eu cartrefi eu hunain. Cynhyrchwyd nodiadau cyfarwyddyd er mwyn helpu'r rhai sy'n atgyfeirio i benderfynu a ddylid atgyfeirio rhywun i'r cynllun, a defnyddiwyd ffurflen safonol ar gyfer atgyfeiriadau. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot i'w gweld fel Atodiad 2, ac mae'r ffurflenni atgyfeirio ar gyfer yr Asiantaeth Gofal a Thrwsio a'r ysbytai lleol i'w gweld fel Atodiad 3a a 3b yn y drefn honno.

Ymweliad asesu a chamau gweithredu ar ôl atgyfeiriad

4. Yn dilyn atgyfeiriad dylid ymweld â'r person oedrannus yn ei gartref, ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus iddo ef. Dylai'r swyddog sy'n gwneud yr ymweliad archwilio'r cartref gan edrych am beryglon posib a allai achosi i rywun lithro neu faglu, yn ogystal â pheryglon a allai arwain at fathau eraill o ddamweiniau, fel llosgi neu sgaldio. Gallai'r archwiliad hefyd edrych ar ddiogelwch eiddo, diogelwch rhag tân, darparu teclynnau canfod carbon monocsid a'r system wresogi. Bydd ystod y materion sydd i'w harchwilio yn dibynnu ar yr eiddo lleol ac ar yr adnoddau sydd ar

gael i wneud gwelliannau. Lle bo angen gall y swyddog sy'n gwneud yr archwiliad roi cyngor uniongyrchol. Ar ddiwedd yr archwiliad dylid llunio adroddiad yn rhoi manylion am yr holl waith sydd ei angen. Gall y gwaith hwn fod yn fân waith atgyweirio neu'n ddarpariaeth newydd, fel cadwyni diogelwch, neu dyllau sbecian mewn drysau. Gellir cyfeirio i sylw Therapydd Galwedigaethol, optegydd neu giropodydd bryd hyn hefyd, er mwyn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'r holl ffactorau ffisegol ac amgylcheddol a allai achosi i rywun faglu neu syrthio neu gael damwain arall.

5. Yn dilyn yr ymweliad archwilio dylai crefftwr ymweld â'r eiddo er mwyn gwneud y gwaith a nodwyd. Lle nad yw'r perchennog yn byw yn yr eiddo byddai'n syniad da hysbysu perchennog yr eiddo ynglŷn â'r gwaith y bwriedir ei wneud er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthwynebiad. Dylid cynnal yr ymweliad hwn ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r sawl sy'n byw yn y tŷ. Lle bynnag y bo modd, dylai'r holl waith a nodwyd gael ei wneud yr un diwrnod, er mwyn achosi cyn lleied ag sy'n bosib o aflonyddu ac anhwylustod i'r sawl sy'n byw yn y tŷ.

Gwerthuso'r Cynllun

6. Fel y nodwyd ym Mhennod 2.6 gellir gwneud gwerthusiad meintiol o lwyddiant y fenter i ryw raddau drwy gymharu data lleol yn ymwneud â derbyn cleifion o'r grŵp targed i ysbyty am driniaeth o ganlyniad i faglu a syrthio cyn ac ar ôl y fenter, a gellir gofyn am yr un wybodaeth gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru Gyfan.

7. Mae rhai o'r mesurau sydd yn y cynllun hwn wedi eu llunio er mwyn lleihau ofn troseddau a gwneud i'r henoed deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Ni ellir gwneud gwerthusiad meintiol o leihau ofn, nac o'r cynnydd yn y teimlad o fod yn ddiogel, ond mae'r rhain yn fesuryddion llwyddiant pwysig. Awgrymir felly bod arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid yn cael ei baratoi, gan gysylltu â phob un sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Yn yr arolwg hwn gellir gofyn cwestiynau yn ymwneud â barn ynglŷn â diogelwch a lleihad neu gynnydd mewn ofn troseddau. Mae'r ffurflen arolwg a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot i'w gweld ynghlwm fel Atodiad 4. Dylid dadansoddi'r ffurflenni er mwyn nodi manteision ac anfanteision sy'n deillio o'r cynllun, a darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu cynlluniau yn y dyfodol.

8. Er mwyn caniatáu dadansoddiad manwl o'r cynllun a chasglu deunydd er mwyn cyfiawnhau parhau â'r cynllun, gweithredu'r cynllun fesul cam drwy'r sir yn y dyfodol a dadansoddi pa mor effeithiol y mae'r cynllun yn cael ei farchnata, byddai hefyd yn werth cynnal cyfweliadau manwl gyda nifer dethol o'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Bydd y rhain hefyd yn ddefnyddiol fel rhan o'r broses werthuso ansoddol, oherwydd byddant yn rhoi asesiad manylach o lwyddiant neu fethiant y cynllun na'r Holiadur Bodlonrwydd Cwsmeriaid. Awgrymir y dylid gwneud nifer o'r astudiaethau achos hyn er mwyn ategu'r wybodaeth a gafwyd o'r Holiaduron Bodlonrwydd Cwsmeriaid. Mae nifer o astudiaethau achos a gynhaliwyd yn ystod y prosiect peilot i'w gweld fel Atodiad 5.

Atodiad 1

Cyflwyniad PowerPoint i'w ddefnyddio mewn Diwrnod Marchnata

Edrych ar ffeil – "07 b Cyflwyniad PowerPoint i'w ddefnyddio mewn Diwrnod Marchnata.ppt"

Atodiad 2

Gofal a Thrwsio Ceredigion

Cynllun Diogelwch yn y Cartref – Canllawiau Atgyfeirio

I'w defnyddio ar y cyd â'r Ffurflen Atgyfeirio Diogelwch yn y Cartref.

1. I ddechrau, llenwch y "Ffurflen" er mwyn nodi'r Sefydliad a'r Adran sy'n atgyfeirio e.e. Consortiwm y Sector Gofal, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm Gofal Cartref y De. Mae arnom angen y wybodaeth hon yn llawn ar gyfer ein cofnodion.

2. Llenwch yr holl fanylion ynglŷn â'r cleient, gan gynnwys 'Enw a Rhif ar gyfer Cysylltu', e.e. perthynas, cymydog.

3. Nodwch yn fyr pam bod yr Atgyfeiriad yn cael ei wneud, yn enwedig os oes problem benodol nad yw'n swyddogion ni'n gwybod amdani. e.e. Y cleient yn bryderus iawn ynglŷn â diogelwch. Y cleient yn simsan iawn wrth ddringo'r grisiau.

4. Nodwch os byddech yn ein cynghori i beidio ag ymweld â chleient ar ein pennau ein hunain, h.y. os gallai'r cleient fod yn beryglus.

5. Oni cheir caniatâd y cleient, neu berson cyfrifol y gellir cysylltu ag ef, ni fyddwn yn ceisio cysylltu, a dychwelir yr atgyfeiriad.

6. Dylai'r sawl sy'n atgyfeirio'r person arwyddo'r ffurflen, a phrintio'i enw'n glir, fel ein bod yn gwybod pwy sy'n gwneud yr atgyfeiriad.

7. MEINI PRAWF AR GYFER CYMHWYSTER

Y grŵp defnyddwyr ar gyfer y gwasanaeth fydd :

Pobl hŷn sy'n berchen-feddianwyr neu'n denantiaid preifat ac sydd â phroblemau Diogelwch yn y Cartref a allai arwain at godwm neu anaf arall yn gysylltiedig â diogelwch.

8. Anfonwch gopi o'r ffurflen ar ffurf ffacs i'r rhif a roddwyd a chadwch gopi ar gyfer cofnodion eich cleient.

9. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch â phetruso cysylltu â ni ar y ffôn i ofyn am gyngor cyn anfon ffacs.

Ar 01970 639920

Atodiad 3a

GOFAL A THRWSIO CEREDIGION CARE & REPAIR
Homesafety Referral

O/From: ……..

I/To: **Cynllun Diogelwch Cartref**/Homesafety Scheme
Gofal a Thrwsio Ceredigion Care & Repair

Enw Client/Client's Name
……..

Cyfeiriad/Address
……..

……..

Dyddiad Geni/
D.O.B ……

Côd Post/
Post Code……...

Rhif Ffôn/
Tel No. ……

Enw Cyswllt/Contact Name ……...
Rhif Cyswllt/Contact No. ……

Manylion/Details:

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

Cytundeb Cleient
Client Authorisation: ……

Referrer Signature:…… Ref Tel No……

Referrer PRINT…… **Dyddiad**/Date:……/……/…

FACS I/FAX TO 01970 639925

Atodiad 3b

Gofal a Thrwsio Ceredigion Care & Repair

Home Safety Scheme Referral

O/From: **Ysbyty Bronglais**/Bronglais Hospital
O/T □ 01970 635964
A&E □ 01970 623131 ex. 5736
Other ……. 01970 623131 ex. ……..

I/To: **Cynllun Diogelwch Cartref**/Homesafety Scheme
Gofal a Thrwsio Ceredigion Care & Repair

Enw Client/Client's Name
……..

Cyfeiriad/Address
……..

……..

Dyddiad Geni/
D.O.B ……

Côd Post/
Post Code……...

Rhif Ffôn/
Tel No. ……

Enw Cyswllt/Contact Name …….
Rhif Cyswllt/Contact No. ……

Manylion/Details:

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

Cytundeb Cleient
Client Authorisation: ……

Referrer Signature:……

Referrer PRINT…… **Dyddiad**/Date:……/……/…

Department ……..

Atodiad 4

GOFAL A THRWSIO CEREDIGION CARE & REPAIR

Holiadur Gwaith Diogelwch Cartref

1. A ydych yn teimlo'n fwy diogel a sicr yn eich cartref yn dilyn gwasanaeth diogelwch cartref?

   Ydw ☐ Nac ydw ☐

   Sylwadau:_____
   _____

2. Ydy'r gwasanaeth wedi lleihau'r tebygolrwydd o gwympo yn eich cartref?

   Ydy ☐ Nac ydy ☐

   Sylwadau:
   _____
   _____

3. Oeddech chi'n hapus gydag ymddygiad a safon y gwaith a wnaethpwyd gan:

   i) Swyddog Diogelwch Cartref?

   Oeddwn ☐ Nac oeddwn ☐

   ii) Crefftwr Diogelwch Cartref?

   Oeddwn ☐ Nac oeddwn ☐

   Sylwadau:
   _____
   _____
   _____

4. Os ydych yn anhapus gydag unrhyw rhan o'r gwasanaeth,

   i) a hoffech i ni gysylltu a chi i drafod y mater

   Hoffwn ☐ Na hoffwn ☐

   _____
   _____

   neu

   ii) a hoffech i ni danfon copi o'n trefn cwyno i chi

   Hoffwn ☐ Na hoffwn ☐

   _____
   _____

   Rhif yr achos: ☐

Atodiad 5

Nid yw'r atodiad hwn ar gael yn y gymraeg